

Swydd Ddisgrifiad

Cydlynnydd Rhaglen Criw Celf: Gwynedd ac Ynys Môn
Hyd y Contract: Medi 2019 – Awst 2020
Ffi: £6,000 (50 diwrnod @ £120 yr un)

Mae Criw Celf yn dymuno penodi Cydlynnydd Rhaglen llawrydd brwdfrydig a chreadigol yng Ngwynedd ac Ynys Môn i gyflwyno'r prosiect Criw Celf. Bydd y Cydlynnydd yn gweithio gydag Uned Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd ac Oriel Môn.

Teitl ambarél yw Criw Celf ar lwybr datblygu ar gyfer artistiaid ifanc Mwy Abl a Thalentog (MAT) sy'n ymgorffori rhaglenni 'Criw Celf', 'Portffolio' a 'Codi'r Bar'. Mae 'Criw Celf' yn gweithio gyda disgyblion MAT o Bl. 5 – 9 a fydd wedyn yn cael cyfle i gymryd rhan yn y rhaglen 'Portffolio' ar lefel TGAU ac yna 'Codi'r Bar' yn ystod lefel 'A' ac 'AS'. Mae Criw Celf yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgarwch celf gweledol o safon uchel wedi'i arwain gan artistiaid proffesiynol mewn lleoliadau ysbrydoledig. Rydym yn trefnu arddangosfeydd o waith aelodau hefyd.

Bydd y rôl benodol hon yn golygu cydlynu'r elfen Criw Celf o'r llwybr yn unig, gan weithio i ennyn diddordeb plant o Bl. 5 i Bl. 9. Serch hynny, bydd yn golygu cysylltu gyda Rheolwr y Prosiect Portffolio a Codi'r Bar ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn, sydd a'i swyddfa yn Galeri, Caernarfon.

Criw Celf	Portffolio	Codi'r Bar
Cydlynnydd Criw Celf Gwynedd ac Ynys Môn = Cyfrifoldeb am gydlynu'r prosiect	<i>Cydlynnydd Criw Celf Gwynedd ac Ynys Môn = Cydgysylltu â'r Rheolwr Prosiect</i>	<i>Cydlynnydd Criw Celf Gwynedd ac Ynys Môn = Cydgysylltu â'r Rheolwr Prosiect</i>
1. Bl. 5 a 6 2. Bl. 7 a 8 3. Bl. 9	<i>TGAU</i>	<i>Lefel A ac AS</i>

Mae'r prosiect yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol a sefydliadau amrywiol yng Ngogledd Cymru ac yn derbyn cefnogaeth ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Bydd y rôl benodol hon yn golygu cyflwyno'r prosiect Criw Celf yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn unig, fodd bynnag, efallai y bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio mewn partneriaeth gyda Chydlynwyr Rhaglen o bob rhan o ranbarth gogledd Cymru ar farchnata a phrosiectau ar y cyd.

Disgrifiad o'r Rhaglen

Mae 'Criw Celf' yn cynnig cyfres o chwe dosbarth meistr i bob person ifanc gan weithio mewn lleoliadau ysbrydoledig ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Cyflogir artistiaid proffesiynol hynod o brofiadol i redeg y dosbarthiadau meistr, gyda phob un yn edrych ar amrywiaeth o dechnegau artistig gan weithio gydag ystod o ddeunyddiau yn cynnwys darlunio, cerflunio, paentio ac argraffu er enghraifft. Bydd gan Gwynedd dri grŵp Criw Celf ar wahân gyda phob grŵp yn derbyn 6 dosbarth meistr, gyda 20 aelod ym mhob grŵp. Bydd gan Ynys Môn 2 grŵp Criw Celf ar wahân gyda phob grŵp yn derbyn 6

dosbarth meistr gydag 20 aelod ym mhob grŵp. Bydd rhaid i'r cydlynnydd drefnu 30 dosbarth meistr unigol ar gyfer yr aelodau fel rhan o'r briff hwn. Bydd y sesiynau'n cael eu cynnal yn ystod tymhorau ysgol, gan osgoi gwyliau ysgol.

Bydd aelodau'r Criw Celf yn cael eu dewis drwy broses enwebu. Bydd Penaethiaid ysgolion cynradd ac Athrawon Celf Uwchradd Gwynedd ac Ynys Môn yn cael cyfle i enwebu disgyblion a fyddai'n elwa o gymryd rhan yn y prosiect ac sydd wedi cael eu dynodi yn ddisgyblion MAT o fewn y celfyddydau gweledol. Rydym hefyd yn awyddus i ddenu aelodau o blith plant sy'n derbyn addysg yn y cartref ac rydym yn annog rhieni a gwarcheidwaid i enwebu hefyd, mewn partneriaeth ac addysgwyr. Rydym hefyd yn cynnig cronfa fwrsari i gynorthwyo aelodau sydd angen cefnogaeth ariannol.

Mae Criw Celf yn brosiect all-gwricwlaidd a gynhelir y tu allan i oriau ysgol ac er y bydd cysylltiadau â'r cwricwlwm cenedlaethol o bosib, nid yw hyn yn un o flaenoriaethau'r prosiect.

Bydd cynorthwyyr Criw Celf yn cael eu cyflogi i fod yn bresennol yn y dosbarthiadau meistr i gynorthwyo'r artistiaid sy'n gweithio fel tiwtoriaid ac i gynorthwyo gwaith y Cydlynwydd o ran arfarnu a dogfennaeth, er enghraifft.

Crynodeb o Dasgau a Dyletswyddau

- Creu a gweithredu cynllun marchnata effeithiol ar gyfer recriwtio aelodau a hyrwyddo'r cynllun yn gyffredinol.
- Bydd y Cydlynnydd yn recriwtio aelodau i ymuno â Criw Celf. Gosodir targedau ynghylch nifer aelodau a'r incwm a enillir.
- Cysylltu ag Ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn, ac ymweld ag ysgolion lle bo hynny'n briodol, i sicrhau y codir ymwybyddiaeth am y prosiect.
- Hyrwyddo'r prosiect drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ar-lein a drwy wefan Criw Celf (www.criwcelf.co.uk).
- Dylunio a chynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd megis pamffledi a phosteri.
- Cynnal cronfa ddata o gysylltiadau a manylion aelodau.
- Casglu llyfrgell o ffotograffau i gofnodi'r prosiect.
- Penodi artistiaid addas i ddarparu'r holl sesiynau gan sicrhau fod asesiadau risg yn cael eu cynnal.
- Amserlennu gwaith cynorthwyyr y prosiect i sicrhau fod staff ar gael ym mhob sesiwn.
- Llogi lleoliadau ar gyfer yr holl sesiynau.
- Rheoli cyllideb y prosiect.
- Sicrhau fod yr holl aelodau'n derbyn gwybodaeth yn brydlon, yn Gymraeg a Saesneg.
- Trefnu a hyrwyddo arddangosfa derfynol o waith celf yr holl aelodau ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.
- Mynychu cyfarfodydd llywio rhanbarthol Criw Celf Gogledd Cymru os oes angen.
- Mynychu cyfarfodydd diweddarau rheolaidd grŵp llywio prosiect Gwynedd ac Ynys Môn a chyfathrebu'n rheolaidd drwy e-bost i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i Grŵp Llywio Gwynedd ac Ynys Môn.
- Arfarnu'r prosiect gan ddefnyddio [Pecyn arfarnu Criw Celf](#).
- Llunio adroddiad terfynol ar gyfer yr arianwyr, sef Cyngor Celfyddydau Cymru.

- Cadw cofnod cywir o'r amser a dreuliyd yn gweithio ar y prosiect.
- Rhaid glynu at bolisiau a gweithdrefnau megis Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, Iechyd a Diogelwch ayb.

Manyleb Person

- Bydd rhaid i'r Cydlynnydd ymrwymo i fod ar gael rhwng Medi 2019 ac Awst 2020.
- Rhaid bod â swyddfa neu fan gwaith eu hunain a chyfleusterau TG.
- Rhaid bod yn hynod o drefnus ac yn dda am gynllunio a chyfathrebu.
- Rhaid iddynt fedru cynnal asesiadau risg o sesiynau celf.
- Rhaid iddynt fedru defnyddio TG yn hyderus (Microsoft Office ac Outlook neu gyfatebol, yn ogystal â chyfryngau cymdeithasol a gwefan CMS).
- Bydd ganddynt gefndir proffesiynol yn y celfyddydau a phrofiad o reoli prosiect, monitro, marchnata, cynllunio ac arfarnu gweithdai a phrosiectau creadigol ar gyfer pobl ifanc.
- Bydd ganddynt wybodaeth am leoliadau celf ac artistiaid gweledol gogledd Cymru y gellir eu defnyddio i ddarparu sesiynau ar ein rhan.
- Rhaid bod yn hunangyflogedig ac yn meddu ar Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.
- Rhaid bod â thrwydded yrru ddilys a cherbyd eich hun.
- Mae'r gallu i gyfathrebu yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg yn hanfodol.
- Rhaid bod yn barod i weithio oriau anghymdeithasol megis ar benwythnosau.
- Rhaid meddu ar agwedd hyblyg a sgiliau rheoli amser.
- Rhaid meddu ar brofiad o farchnata a syniadau arloesol a chreadigol ynghylch sut i gael plant, pobl ifanc, ysgolion a theuluoedd i ymgysylltu â'r prosiect Criw Celf.

Gwrando a Siarad:

Yn gallu cyflwyno holl agweddau'r swydd yn hyderus ar lafar yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

Darllen a Deall:

Yn gallu defnyddio a dehongli'n hyderus unrhyw wybodaeth o ffynonellau amrywiol yn Gymraeg a Saesneg er mwyn cyflawni holl gyfrifoldebau'r swydd.

Ysgrifennu:

Yn gallu cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg yn hyderus gan ddefnyddio'r dulliau a'r iaith fwyaf addas ar gyfer y pwnc a'r gynulleidfa.

Ffi a Chontract

Bydd **cyfanswm ffi o £6,000** ar gael ac mae costau teithio a chynhaliadaeth wedi eu cynnwys yn y ffi honno. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu anfonebau ar gyfer y gwaith, fesul tipyn, gan amlinellu'r tasgau a'r amser a dreuliyd ar y prosiect. Cyngor Môn fydd yn rheoli'r contract.

Mae'r contract am gyfanswm o 50 diwrnod. Bydd rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus reoli eu hamser yn effeithiol mewn ymateb i'r rhaglen waith. Efallai y bydd gofyn buddsoddi mwy o amser yn y prosiect ar adegau penodol

o'r flwyddyn ac felly bydd rhaid i'r Cydlynnydd fabwysiadu patrwm gwaith hyblyg mewn ymateb i amserlen y prosiect.

Dadansoddiad o'r ffi: 50 diwrnod @ £120 yr un = £6,000 Mae diwrnod o waith cyfystyr â 7 awr 30 munud.

Sut i ymgeisio

I ymgeisio am y swydd Cydlynnydd Rhaglen Criw Celf, anfonwch gais atom ar e-bost, gan ddangos sut mae eich sgiliau, gwybodaeth a'ch profiad yn cwrdd â gofynion y swydd ddisgrifiad. Esboniwch pan eich bod yn credu mai chi yw'r ymgeisydd mwyaf addas i ymgymryd â'r tasgau a'r dyletswyddau a restrir uchod a sut yr ydych yn cyfarfod â meini prawf y fanyleb person. Darparwch gopi o'ch CV a manylion dau ganolwr.

Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn 9yb ar 30 Awst.

Anfonwch eich cais ar e-bost i Lia Griffith, Cydlynnydd Dysgu ac Ymgysylltu, Liagriffith@ynysmon.gov.uk

Cyfweliadau

Rhagwelir y bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal yn Oriel Môn ar y **19eg o Fedi 2019.**

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag un o'r canlynol.

- **Lia Griffith** – Oriel Môn, Cyngor Môn – Liagriffith@ynysmon.gov.uk / 01248 752027
- **Ceri Williams** - Oriel Môn, Cyngor Môn - CeriWilliams@ynysmon.gov.uk / 01248 752189
- **Gwawr Wyn Roberts**, Celfyddydau Cymunedol, Cyngor Gwynedd - gwawrwynroberts@gwynedd.llyw.cymru / 01286 679721

A chofiwch ymweld â gwefan Criw Celf: www.criwcelf.co.uk

